

Crynodeb: Newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol – Cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Beth yw pwrpas yr ymgynghoriad hwn?

Rydym yn awyddus i gael eich barn am newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â gofal cymdeithasol a Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

Rydym wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n nodi manylion y cynigion ac yn gofyn cwestiynau cysylltiedig.

Pennod 2 – Cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Drwy weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae Gweinidogion Cymru wedi ceisio grymuso pobl i gael mwy o gyfranogiad a rheolaeth dros y gofal a'r cymorth a gânt.

Elfen bwysig yw hawl pobl i gael taliadau uniongyrchol (symiau ariannol) gan eu hawdurdod lleol sy'n caniatáu iddynt wneud eu trefniadau eu hunain i ddiwallu eu hanghenion cymwys am ofal a chymorth, neu eu hanghenion cymorth yn achos gofalwr.

Mae gofal iechyd, a ddarperir gan y GIG, ar gael am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen a phan fydd yr angen hwnnw yn drech nag anghenion gofal eraill, gall person fod yn gymwys i gael pecyn gofal iechyd parhaus. Ar hyn o bryd, ni all person sy'n cael gofal iechyd parhaus dderbyn taliadau uniongyrchol i wneud ei drefniadau ei hun.

Mae pryderon wedi codi bod trosglwyddo o daliadau uniongyrchol awdurdodau lleol am ofal a chymorth i becyn gofal iechyd parhaus, wedi'i drefnu gan y GIG i ddiwallu'r holl anghenion iechyd a gofal, yn peryglu rheolaeth person. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried newid y gyfraith i sicrhau bod oedolion sy'n anabl neu'n ddifrifol sâl yn gallu cadw'r dewis o sut, pryd a chan bwy y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu. Mae hyn – ochr yn ochr â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus (mis Ebrill 2022) a chanllawiau ymarferol – yn anelu at gyflawni ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i 'wella'r rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus a thaliadau uniongyrchol'.

Beth rydym yn ei gynnig?

Diwygio Deddf GIG (Cymru) 2006 i gynnwys:

- pŵer i fyrddau iechyd lleol wneud taliadau uniongyrchol i oedolion (neu eu cynrychiolydd) y mae penderfyniad wedi'i wneud eu bod yn gymwys ar gyfer gofal iechyd parhaus
- pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch y taliadau uniongyrchol hyn (e.e. pa fath o ofal y gellir eu rhoi ar ei gyfer, unrhyw eithriadau, sut bydd y cynllun yn gweithredu)
- pŵer i fyrddau iechyd lleol roi cymorth i bersonau neu gyrff mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn gwahodd eich barn ar y cynigion hyn a'r effeithiau, manteision, costau a'r risgiau sy'n debygol. Mae'n gofyn pa wersi y gellir eu dysgu o arferion mewn gwledydd eraill; a oes dulliau eraill neu gyflenwol y gellid eu hystyried; ac a ddylai'r gyfraith gael ei chefnogi gan ganllawiau ynghylch sut mae'r system yn gweithredu.

Sut galla i roi fy marn i Lywodraeth Cymru?

Gallwch gyflwyno eich ymateb **erbyn hanner nos ar 7 Tachwedd 2022**, yn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi ein ffurflen ar-lein, **neu**
- Lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ymateb a'i hanfon drwy e-bost at: YmgynghoriadGofalCymdeithasol@llyw.cymru **neu** ei postio i'r cyfeiriad sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

Darllenwch y ddogfen ymgynghori cyn ystyried eich ymateb. Mae'r ddogfen ar gael yn:

[llyw.cymru/newidiadau-arfaethedig-ir-ddeddfwriaeth-ar-ofal-cymdeithasol-gofal-iechyd-parhaus-y-gig](#)